**Cofnodion Bwrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf.**

**1 Ebrill 2022**

09:00 – 1400

Lle: Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd); Jan Chaudhry; Heather Clash; Alexia Course; Marie Daly; a Peter Strachan.

Hefyd yn bresennol: David O'Leary a Jeremy Morgan. Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod ar gyfer eitem 7. Ymunodd Tristan Guyard ar gyfer eitemau 8 a 9. Ymunodd Colin Lea ar gyfer eitem 10.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim

**1b. Hysbysiad Cworwm**
Oherwydd bod cworwm, fe wnaeth y Cadeirydd ddatgan bod y cyfarfod ar agor.

**1c. Datgan Budd**
Ni chafodd ddim budd ei ddatgan gan aelodau. Mae David O'Leary (hefyd yn bresennol) yn un o gyfarwyddwyr PTI Cymru.

[redacted]

**2b. Sylw Cwsmeriaid**
Roedd teithiwr yng ngorsaf Caer wedi cwympo a brifo. Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r staff am y sylw a'r gofal a roddwyd i'r teithiwr oedd wedi brifo.

**3. Cofnodion a Gweithredu'r Cyfarfod Blaenorol**
Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2022 fel rhai gwir a chywir.

Nodwyd y log Camau Gweithredu.

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion yn penderfynu prynu pedwar trên Dosbarth 153 gan Great Rolling Stock Company Plc; a rhoi awdurdod i'r llofnodeion perthnasol i wneud popeth sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau, ac sydd i bob diben yn cyflawni'r pwrpasau sydd mewn golwg gan, y Trafodiad Arfaethedig a'r Ddogfen / Dogfennau.

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion yn penderfynu prynu saith cerbyd MkIV a'r darnau sbâr cysylltiedig gan Eversholt Rail Finance Limited; a rhoi awdurdod i'r llofnodeion perthnasol i wneud popeth sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau, ac sydd i bob diben yn cyflawni'r pwrpasau sydd mewn golwg gan, y Trafodiad Arfaethedig a'r Dogfennau.

**4. Adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr**

Roedd perfformiad y trenau'n gwella'n barhaus ond wedi gostwng fymryn yn dilyn stormydd cyn codi eto, a hyn wedi'i helpu drwy barhau'r amserlen milltiroedd is "camu lawr" o ganlyniad i don amrywiolyn Omicron Covid. Ers y stormydd, yr her yw cynllunio gwasanaeth trenau sy'n taro'r cydbwysedd iawn rhwng:

- yr adnoddau (stoc a chriw) sydd ar gael – gyda mini-don newydd o absenoldebau Covid, ond gan obeithio y codir yr holl gyfyngiadau yng Nghymru ar 28 Mawrth;
- cynnydd mewn galw wrth i awydd pobl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gynyddu'n dilyn Covid;
- bod angen darparu gwasanaeth dibynadwy a chanslo llai o drenau ar y diwrnod, ac felly peidio â gor-addo;
- mwy o deithwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chynnydd siarp mewn prisiau petrol;
- effaith bosib ymgyrchoedd marchnata a gynlluniwyd ers tro byd; a
- bod angen rhyddhau nifer sylweddol o yrwyr a thocynwyr o'u dyletswyddau i fynychu hyfforddiant ar drenau Dosbarth 197, MkIV a Dosbarth 230.

Roedd dangosyddion diogelwch yn eithaf sefydlog dros y cyfnod, heb unrhyw achosion SPAD Categori A. Fodd bynnag, roedd cynnydd nodedig wedi bod mewn damweiniau teithwyr a chyhoeddus, sy'n gyson â mwy o deithwyr.

Gydag amserlen newydd Mai 2022 ond rai wythnosau i ffwrdd, mae AIW wedi adrodd cynnydd da gyda gwaith trwsio pont Adam Street sy'n golygu y bydd y gwasanaeth o Coryton i'r Radur (Lein y Ddinas) yn cael ei adfer ynghyd â bysus gwennol Bae Caerdydd. [redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Roedd y Bwrdd hefyd yn cydnabod y diwylliant presennol yn y sefydliad o ragfarn optimistig ac felly bod angen dad-risgio gweithgareddau gymaint â phosib. Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylid adolygu bod angen cryfhau'r tîm ar reoli perfformiad dynodedig.

**5. Adroddiad Sicrhau Ansawdd**

Nododd y Bwrdd yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd.

**6. Diweddariad Masnachol**

Roedd twf pellach yn y galw / refeniw o un cyfnod i'r llall wedi bod yn P12, gyda data'r diwydiant yn awgrymu bod y galw hamdden bellach wedi dychwelyd i tua 98% o'r hyn ydoedd cyn Covid. Mae teithio hamdden bellach yn cyfrif am tua 76% o'r holl alw ar rwydwaith TrC. Fodd bynnag, mae'r galw / refeniw yn parhau i fod o dan darged yn dilyn yr amrywiolyn Omicron a'r cyfyngiadau ar gymdeithas o ganlyniad, yn enwedig o ran teithio busnes.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**7. Cyfrifon Rheoli**

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod. [redacted]

[redacted]

Nododd y Bwrdd y cyfrifon rheoli ar gyfer P12.

[redacted]

**9. Trenau 175**

Cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad i lofnodi Llythyr o Fwriad a Chytundeb TSSSA ag Alstom i ymestyn prydles y trenau Dosbarth 175 tan fis Mai 2023.

Gadawodd Tristan Guyard y cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu’n bresennol am eu cyfraniadau.